

**Dyletswydd bioamrywiaeth a
chydnerthedd ecosystemau
(dyletswydd adran 6)**

**Adroddiad Gweithredu
Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru**



Cynnwys

Tudalen

1. Cyflwyniad	03
2. Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau	03
3. Cyflwyniad i OGCC	04
4. Adroddiad gweithredu	04
4.1 Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymwreiddio bioamrywiaeth drwy wneud penderfyniadau ar bob lefel	05
4.2 Ymdrin â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd	05
Gwastraff	05
Golau ac ynni	07
Allyriadau	08
4.3 Sefydlu fframwaith o lywodraethiant a chefnogaeth ar gyfer cyflawni	09
5. Adrodd a chynllunio	10
Atodiad	11

1. Cyflwyniad

Mae gwarchod yr amgylchedd yn parhau yn flaenoriaeth ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Lle y bo'n bosibl, mae'r Ombwdsmon yn gweithio tuag at leihau effaith y swyddfa ar yr amgylchedd ac mae'n ceisio gweithredu mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol.

Mae'r adroddiad hwn yn casglu ac yn ehangu'r wybodaeth ar berfformiad OGCC ar gynaliadwyedd rhwng 2016 a Thachwedd 2019. Mae'r Atodiad yn cyflwyno ffigyrau llawn 2019/20.

Mae OGCC eisoes yn adrodd yn rheolaidd ynglŷn â'r camau gweithredu a gymerwyd i wella cynaliadwyedd a lleihau unrhyw effaith amgylcheddol niweidiol y swyddfa. Gellir gweld yr adroddiad cynaliadwyedd diweddaraf yn [Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2018/19](#).

Mae'r adroddiad hwn yn casglu ac yn ehangu'r wybodaeth ar berfformiad OGCC ar gynaliadwyedd ers 2016.

2. Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthed ecosystemau

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd fanylach ar fioamrywiaeth a chydnerthed ecosystemau (dyletswydd adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth iddyn nhw arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Mae dyletswydd adran 6 yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag sy'n gyson ag arfer eu swyddogaethau yn gywir, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthed yr ecosystemau'.

Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd, dylai awdurdodau cyhoeddus ymwreiddio'r ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau i mewn i'w meddwl cynnar a'u cynlluniau busnes, gan gynnwys unrhyw bolisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal ag i'w gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae OGCC yn cael ei gynnwys o fewn y diffiniad o awdurdod cyhoeddus o dan delerau'r Ddeddf ac mae gofyn iddo gyhoeddi adroddiad ynglŷn â sut y cydymffurfiodd ef â dyletswydd adran 6.

Er nad yw OGCC yn destun i ddyletswyddau llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae ef yn cefnogi gweledigaeth y Ddeddf yn llawn er mwyn creu Cymru fwy gynaliadwy.

3. Cyflwyniad i OGCC

Mae gan yr Ombwdsmon dair swyddogaeth benodol. Y gyntaf yw ystyried cwynion ynglŷn â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r Côd Ymddygiad; y drydedd yw gosod safonau ymdrin â chwynion ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol o holl gyrrff y llywodraeth ac mae'n darparu'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Mae prif swyddfa OGCC ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn wreiddiol, cymerodd yr Ombwdsmon y brydles ar gyfer y llawr gwaelod yr adeilad yn 2005 ac ers hynny, mae wedi ymestyn i feddiannu rhannau o'r llawr cyntaf a'r ail lawr, er mwyn darparu lle i dros 70 o staff ac ymwelwyr mewn swyddfa sydd yn bennaf yn un cynllun agored.

Trydan yw'r unig gyflenwad ynni sy'n cael ei ddefnyddio ac mae hwn yn darparu golau a darparu gwres/oerni yn ogystal â phweru cyfarpar arferol y swyddfa.

Adeilad	Adeiladwyd	Nifer o Loriau	Cyfanswm Arwynebedd Llawr y gellir ei ddefnyddio (tr ²)	Math o Wres
1 Ffordd yr Hen Gae	2004	3	16,460	Unedau Trin Aer

O fis Chwefror 2018, bu'r OGCC hefyd yn cynnal swyddfa fechan ym Mangor.

4. Adroddiad gweithredu

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef [Cynllun Gweithredu Adfer Natur i Gymru](#) (CGANG). Mae [Canllawiau Adrodd Adran 6](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019 yn awgrymu y gellir cysylltu adroddiad gweithredu ar ddyletswydd adran 6 ag amcanion CGANG.

Er mwyn sicrhau cymesuredd, mae'r Canllaw yn nodi sawl amcan sydd fwyaf perthnasol ar gyfer awdurdodau fel OGCC – h.y. cyrff sy'n berchennog neu'n preswyllo mewn adeilad sy'n swyddfa yn unig ac nad yw ei swyddogaethau yn uniongyrchol gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir.

Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymwreiddio bioamrywiaeth drwy wneud penderfyniadau ar bob lefel.
- Ymdrin â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.
- Sefydlu fframwaith o lywodraethiant a chefnogaeth ar gyfer cyflawni.

Mae'r adrannau isod yn cyflwyno perfformiad OGCC mewn perthynas â'r amcanion hyn.

4.1 Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymwreiddio bioamrywiaeth drwy wneud penderfyniadau ar bob lefel

Mae sylw i gynaliadwyedd wedi cael ei integreiddio ym mholisiau a chynlluniau strategol allweddol OGCC. Er enghraifft:

- Mae Cynllun Corfforaethol OGCC 2019/20-2021/22 yn cynnwys ymrwymiad i 'ymwreiddio'r egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy yn y modd yr ydym yn rhedeg ein busnes, a mwyhau ein cyfraniad i gyflawni'r saith nod llesiant yng Nghymru'. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi Dargedau Perfformiad Allweddol mewn perthynas â gwastraff a thrydan.
- Mae Polisi Caffael OGCC yn dweud 'y dylai'r holl gaffael ystyried materion cynaliadwyedd'

Mae OGCC yn ceisio sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i gyfrannu tuag at ymarfer cynaliadwy'r swyddfa. Yn ystod 2017/18, cyfranogodd staff mewn gweithdy ar gynaliadwyedd a nodwyd nifer o fesurau eraill er mwyn gwella rheolaeth y defnydd o ynni.

4.2. Ymdrin â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae adeilad swyddfa OGCC yn cael ei brydlesu, sy'n cyfyngu ar allu'r Ombwdsmon i wneud newidiadau i effeithlonrwydd ynni'r adeilad. O ganlyniad, mae gwaith OGCC i sicrhau a gwella cynaliadwyedd a lleihau unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd wedi canolbwyntio ar leihau gwastraff, y defnydd o ynni ac allyriadau.

Gwastraff

Mae OGCC yn ailgylchu'r holl bapur gwastraff yn gyfrinachol ac yn ailgylchu gwastraff cyffredinol fel plastig, cardbord a thuniau ynghyd â batris a chetris arlliw.

Yn 2019, cafodd OGCC wared â'r holl finiau wrth y desgiau er mwyn annog staff i ailgylchu cymaint o wastraff ag sy'n bosibl. Mae manau newydd ar gyfer gwastraff, sy'n cynnwys ailgylchu cymysg yn ogystal â gwastraff cyffredinol wedi cael eu hychwanegu drwy'r swyddfa.

Ym mis Ebrill 2016, cymerodd OGCC ei gamau cyntaf i ddod yn swyddfa di-bapur. Ers hynny, cymerwyd nifer o gamau cynyddrannol allweddol:

- Daeth cofnodion electronig ynglŷn ag achosion OGCC yn gofnodion achos diffiniol, hyd yn oed os oedd ffeiliau papur yn bodoli;
- Dechreuodd staff OGCC gynnal ymholiadau a chymau asesu cychwynnol eu gwaith drwy ddefnyddio dogfennau electronig yn unig;
- Ymgorfforwyd manylion papur pennawd mewn dogfennau electronig, gan gael gwared â'r angen i argraffu ar bapur pennawd;

- Gofynnwyd i gyrrff o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon gysylltu yn electronig lle y bo'n bosibl;
- Cyflwynodd OGCC 'is-ffeiliau electronig' er mwyn rhannu dogfennau a chofnodion achos gyda chynghorwyr proffesiynol yn electronig yn lle cynhyrchu ac anfon dogfennau copi caled. Yn 2019/20, bu lleihad o 40% yn y nifer o is-ffeiliau a oedd yn cael eu cynhyrchu mewn fformat papur o'i gymharu â 2018/19.
- Ar gyfer y rhan fwyaf o achosion, ni chedwir unrhyw ffeil bapur yn awr;

Uchelgais Llywodraeth y DU yw cael gwared â'r holl blastig osgoadwy o fewn 25 mlynedd. Ers 2017/18, mae adroddiadau cynaliadwy OGCC hefyd yn rhoi sylw i weithredu er mwyn lleihau'r defnydd o blastig osgoadwy yn y swyddfa. Yn 2018/19, cafodd OGCC wared â pheiriannau oeri dŷr ac nid yw cwpanau plastig tafladwy yn cael eu prynu mwyach. Mae staff ac ymwelwyr yn gallu defnyddio cwpanau a gwydrau aildefnyddiadwy.

Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod ers 2016/17 mae OGCC wedi lleihau cyfanswm y gwastraff fel a ganlyn:

Ffigurau gwastraff y flwyddyn (mewn cilogramau)

	2016/17*	2017/18*	2018/19
Ailgylchu Gwastraff Cyfrinachol	14,300	14,300	8,860
Ailgylchu Cymysg	7,800	14,300	2,250
Gwastraff Cyffredinol (yn cynnwys gwastraff bwyd) (amcangyfrifwyd)	26,970	26,970	20,000
Cyfanswm	49,070	55,570	31,110

*Mae'r ffigurau ar gyfer 2016/17 a 2017/18 wedi cael eu hailgyfrifo er mwyn trosi litrau i gilogramau.

Mae'n anodd cymharu rhwng 2018/19 a'r blynyddoedd blaenorol. Mae'r ffigurau ar gyfer 2016/17 a 2017/18 yn dangos cyfanswm uchaf o wastraff a ddaeth o dan gontractau casglu gwastraff perthnasol, a hynny ar sail cyfaint yn hytrach na phwysau. Ers 2018/19, bu contractau newydd ar waith sy'n cofnodi pwysau cywir y gwastraff a gesglir. Bydd hyn yn gwneud cymariaethau yn y dyfodol yn fwy ystyrlon. Hefyd, gall y ffigurau fod wedi'u cam-gyfleu yn sgil dinistrio o bryd i'w gilydd cofnodion hŷn, sydd wedi eu creu cyn polisi ysgafn ar bapur OGCC.

Roedd effaith amcangyfrifedig o ailgylchu papur a gwastraff cyfrinachol yn ystod 2018/19 fel a ganlyn:

Coed a arbedwyd	Tirlenwi a arbedwyd (m ³)	KwH a arbedwyd	CO2 a arbedwyd (cg)	Dŷr a arbedwyd (L)
150.62	2.05	37,212	5,316	283,520

Ers mis Ebrill 2019, anfonodd OGCC 0% o'i wastraff cyffredinol i safle tirlenwi. Mae pob gwastraff cyffredinol yn mynd i safle lloggi. Mae'r gwastraff yn cael ei drosi i stêm a'i brosesu drwy waith cydgyhychu, sy'n trosi'r stêm yn drydan a gwres. Mae'r trydan wedyn yn cael ei fwydo i'r grid cenedlaethol ac mae'r gwres sydd ar ôl yn cael ei fwydo i gyfnewidydd gwres er mwyn darparu gwres a dŷr poeth i gartrefi lleol.

Golau ac ynni

Dechreuodd rhaglen i ddisodli'r goleuadau presennol gyda bylbiau golau LED yn 2017/18, gyda 50% wedi'u huwchraddio i lampau sy'n defnyddio 90% llai o ynni na lampau safonol ac mae ganddyn nhw oes hirach, sy'n arwain at lai o waith cynnal a chadw a llai o wastraff. Gosodwyd golau LED newydd drwy'r swyddfeydd ar y llawr gwaelod i gyd a rhan o'r llawr cyntaf ym mis Mawrth 2018, gyda gweddiill golau'r swyddfa yn derbyn goleuadau LED yn ystod 2018/19. Yn gyfochrog â hyn, anogwyd staff ac ymwelwyr i droi'r goleuadau a'r gwres/system awyru i ffwrdd pan nad oedden nhw'n cael eu defnyddio a gosodwyd arwyddion i'r perwyl hwnnw drwy'r swyddfa.

Mae hyn wedi arwain at leihad o 13% yn y defnydd o drydan gan OGCC ers 2016/17:

Defnydd trydan (kWh)		
2016/17*	2017/18	2018/19
150.62	2.05	37,212

*Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r gwir ddefnydd yn hytrach na'r defnydd ar gyfartaledd a adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2016/17.

Allyriadau

Mae gan swyddfa OGCC ym Mhencoed gysylltiadau cludiant cyhoeddus rhesymol. Mae'r orsaf reilffordd ym Mhencoed (llai na milltir i ffwrdd) ynghyd â gwasanaethau bws i'r safle ac o'r safle yn darparu dewisiadau cludiant cyhoeddus ar gyfer staff ac ymwelwyr. Yn ogystal, mae swyddfeydd OGCC yn hawdd cael atyn nhw mewn car o draffordd yr M4. Anogir staff i ddefnyddio cludiant cyhoeddus pan fo'n addas ar gyfer cyfarfodydd busnes.

Yn ogystal, anogir staff i ddefnyddio cludiant cyhoeddus ar gyfer cymudo neu deithio i'r gwaith gyda beic os yw'n bosibl. Darperir cawodydd a stondinau beic yn swyddfeydd OGCC.

Roedd agor swyddfa fechan ym Mangor yn ystod 2019/20 yn helpu i gartrefu nifer fechan o staff sy'n byw yng Ngogledd Cymru a lleihau'r angen iddyn nhw i deithio.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r nifer o staff sy'n gweithio gartref (GG) fel rhan o'u patrwm gwaith arferol wedi cynyddu. Mae hyn wedi lleihau milltiroedd cymudo ac mae'n cyfrannu tuag at leihad yn ôl-troed carbon OGCC.¹

	2018/19 ar 31/03/2019	2019/20 ar 30/11/2019
Nifer y staff (rhan-amser / llawn amser)	67 (17 RhA/50 LIA)	72 (21 RhA/51 LIA)
Nifer y staff sy'n gweithio gartref	4	8
Dyddiau GG yn ystod wythnos gyfartalog	5	11
Milltiroedd cyfartalog cymudo a arbedwyd bob dydd	57.5	66.75
Cilogramau cyfartalog o CO2 mewn allyriadau a osgowyd ²	2991	9694

¹Mae adroddiad y CarbonTrust '[Homeworking: helping businesses cut costs and reduce their carbon footprint](#)' (2014) yn egluro mai 'effaith adlam sylweddol gweithio gartref yw defnyddio mwy o ynni yn y cartref, gan fynd i gostau amgylcheddol ac ariannol'. Fodd bynnag, darganfu'r adroddiad, yn gyffredinol, fod gweithio gartref yn lleihau ôl-troed carbon gweithiwr os ydyn nhw fel arfer yn gyrru mwy na 4 milltir i'r gwaith yn y bore, yn defnyddio bws am fwy na 7 milltir, neu'n teithio ar y trên am 16 milltir neu fwy.

²Amcangyfrifwyd ôl-troed carbon ceir drwy ddefnyddio cyfrifiannell [Ôl-troed Carbon](#).

Mae OGCC yn defnyddio cyflenwyr lleol lle y bo'n bosibl er mwyn lleihau allyriadau carbon. Er enghraifft,

Nwyddau / gwasanaethau	Lleoliad
Adnoddau ysgrifennu	Llantrisant
Cynnal a chadw llungopiwyr	Abertawe
Papurau Newydd	Pencoed
Arlwyo	Pen-y-bont ar Ogwr

4.3. Sefydlu fframwaith o lywodraethiant a chefnogaeth ar gyfer cyflawni

Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Gwelliant a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol gyfrifoldeb dros berfformiad OGCC ynglŷn â chynaliadwyedd. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol yn ymgymryd ag adolygiadau mewnol o berfformiad cynaliadwyedd OGCC bob chwe mis.

Mae canfyddiadau'r broses yn cael eu cyfathrebu i Dîm Rheoli OGCC ac maen nhw'n darparu gwybodaeth tuag at gynllunio strategol yr Ombwdsmon yn ogystal â'r adroddiad blynyddol ynglŷn â chynaliadwyedd.

Tra bod y rhan fwyaf o waith OGCC ar gynaliadwyedd yn cael ei gyflawni drwy bolisiau, gweithdrefnau a chamau gweithredu mewnol, mae'r Ombwdsmon hefyd ar rai achlysuron yn ceisio cefnogi'r amgylchedd drwy bartneru â sefydliadau allanol. Er enghraifft, ym mis Hydref 2019, cyfranogodd staff OGCC mewn diwrnod gwirfoddoli yng Nghanolfan Arfordir Treftadaeth Morgannwg, ym Mharc Dwnrhewn. Roedd gweithgareddau yn ystod y diwrnod yn cynnwys casglu ysbwriel a phlastig yn ogystal â chynnal a chadw glaswelltiroedd y Ganolfan Arfordir.

Dangosodd y gwerthusiad gan Busnes yn y Gymuned Cymru a frocerodd y prosiect fod y profiad yn cael ei werthfawrogi gan staff OGCC a chan y Ganolfan.

- roedd 100% o wirfoddolwyr a gyflwynodd adborth yn gweld y profiad fel un gwerthfawr

Roedden nhw'n grŵp trefnus o wirfoddolwyr, a oedd yn gweithio yn dda er gwaethaf amodau niweidiol y tywydd ... Llwyddodd grŵp Ombwdsmon Cymru i gyflawni llawer mewn diwrnod"

Louise Bebb – Parcmon Cynorthwyol.

5. Adrodd a chynllunio

Bydd OGCC yn parhau i adrodd ynglŷn â pherfformiad ar gynaliadwyedd fel rhan o'r adroddiad blynyddol. Mewn cydymffurfiaeth â'r gofynion o dan adran 6, isadran (6) o Ddeddf yr Amgylchedd 2016, bydd OGCC yn datblygu cynllun i wella perfformiad cynaliadwyedd ymhellach. Bydd hyn yn cael ei ymgorffori i Gynllun Gweithredol OGCC yn 2020/21.

Bydd rhai o'r camau gweithredu i'w hystyried o dan y cynllun yn cynnwys:

- lleihau gwastraff cyfrinachol a gwastraff papur ymhellach;
- cynyddu'r gyfran o wastraff sy'n cael ei hailgylchu (36% ar hyn o bryd);
- gwella sut mae OGCC yn monitro allyriadau a gynhyrchir gan deithio busnes a chymudo y staff;
- adolygu cyflenwyr a threfniadau caffael presennol;
- gwella ymwybyddiaeth y staff ynglŷn â ffyrdd o leihau eu hól-troed carbon.

Atodiad: Perfformiad cynaliadwyedd 2019/20

Gwastraff

Math o Wastraff	2018/2019	2019/20	Newid
Gwastraff Cyfrinachol	8,860	8,650	Gostyngiad o 2%
Ailgylchu Cymysg	2,250	2,346	Cynnydd o 4%
Gwastraff Cyffredinol	20,000	16,000	Gostyngiad o 20%
Cyfanswm	31,110	26,996	Gostyngiad cyffredinol o 13%

Ers mis Ebrill 2019, anfonodd OGCC 0% o'i wastraff cyffredinol i safle tirlenwi

Roedd effaith amcangyfrifedig o ailgylchu papur a gwastraff cyfrinachol yn ystod 2019/20 fel a ganlyn:

Coed a arbedwyd	Tirlenwi a arbedwyd (m ³)	KwH a arbedwyd	CO ² a arbedwyd (cg)	Dŷr a arbedwyd (L)
147.05	2.00	36,330	5,190	276,800

Defnydd Trydan

Lleoliad y mesurydd	2018/19	2019/2020	Newid
Llawr gwaelod Exec	16,823	14,154	Gostyngiad o 16%
Llawr gwaelod Tîm Ymchwilio (maes parcio cefn)	12,804	10,488	Gostyngiad o 18%
Llawr gwaelod Gwasanaethau Corfforaethol	15,948	14,366	Gostyngiad o 10%
Llawr gwaelod Tîm Gwella (maes parcio tu blaen)	38,227	44,011	Cynnydd o 15%

Lleoliad y mesurydd	2018/19	2019/2020	Newid
Llawr 1af Cegin	12,477	11,144	Gostyngiad o 11%
Llawr 1af Ystafelloedd Tawel a Storfa	5,001	5,841	Cynnydd o 17%
2il Lawr Ystafelloedd cynadledda	5,421	4,571	Gostyngiad o 17%
Cyfanswm y defnydd	106,701	104,521	Gostyngiad cyffredinol o 2%

Eleni, cynyddodd nifer y staff o 67 i 72 (ac eithrio staff nad ydynt yn gweithio yn y swyddfa yn aml). Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno'r Tim Gwella (10 aelod o staff) a oedd yn llenwi ardal lle oedd ond 3 PC yno yn flaenorol. Gallai hyn fod y rheswm pam y bu cynnydd o 15% yn yr ardal honno o'r swyddfa.

Mae ystafell storfa TG wedi bod yn cael ei defnyddio ers mis Ebrill. Fodd bynnag, bu angen ei ddefnyddio er mwyn storio gweinydd wrth gefn ychwanegol. O ganlyniad, bu raid i OGCC gadw'r uned aerdymheru ar y gosodiad oeraf am 24 awr y dydd. Mae'r cwmwl wrth gefn bellach ar waith ond heb ei brofi hyd hyn. Oherwydd cyfyngiadau symud COVID-19, gohiriwyd y profion. Pan fydd OGCC yn fodlon bod y cwmwl wrth gefn yn ddigonol, bydd yr uned aerdymheru yn cael ei diffodd.

Allyriadau a osgowyd - Gweithio Gartref / gweithio Oriau Cywasgedig

	2018/19	2019/2020	Newid
Nifer y Staff	67	73	Cynnydd o 9%
Llawr amser	50	52	Cynnydd o 4%
Rhan Amser	17	21	Cynnydd o 24%
Nifer y staff yn Gweithio Gartref / Oriau Cywasgedig	4	11	Cynnydd o 175%
Diwrnodau Gweithio Gartref / Oriau Cywasgedig yr wythnos arferol	5	17	Cynnydd o 175%
Milltiroedd cymudo a arbedwyd bob dydd*	57.5	81.27	Cynnydd o 41%
Cilogramau cyfartalog o CO2 mewn allyriadau a osgowyd**	2,991	11,347	Cynnydd o 175%

*Mae milltiroedd cymudo a arbedwyd yn seiliedig ar y cartref i'r gwaith a gwaith i'r cartref.

**Mae cilogramau cyfartalog o CO2 mewn allyriadau a osgowyd yn cael eu cyfrif drwy ddefnyddio ffigurau ar gyfer car disel a char petrol a chymryd y cyfartaledd.

Ar hyn o bryd mae OGCC yn gweithredu o dan gyfyngiadau symud COVID-19 gyda'r holl staff yn gweithio gartref. Mae hyn yn debygol o hyrwyddo mwy o geisiadau gan staff i weithio gartref yn fwy parhaol.

Sut i gysylltu â ni

Ffôn 0300 790 0203

E-bost holwch@ombwdsmon.cymru

Ewch i'r wefan www.ombwdsmon.cymru

Ysgrifennwch at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: [@Ombwdsmon](https://twitter.com/Ombwdsmon)